

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Pwyllgor Cynllunio
Dydd Mawrth, 7fed Medi, 2021, 2.00 pm

CYNGHORWYR YN BRESENNOL: Cyngorydd Sirol R. Edwards (Chairman)
Cyngorydd Sirol P. Clarke (Vice Chairman)

Cyngorydd Sirol: J.Becker, L.Brown, A.Davies, A. Easson,
D. Evans, J. Higginson, G. Howard, P. Jordan, P. Murphy, M. Powell,
A. Webb, S. Woodhouse

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Craig O'Connor	Head of Planning
Philip Thomas	Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Andrew Jones	Development Management Area Team Manager
Amy Longford	Rheolwr Treftadaeth
Denzil – John Turbervill	Commercial Solicitor
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

Cyngorydd Sirol M.Feakins, R. Harris

1. Datganiadau o Fuddiant.

Ni dderbyniwyd yr un.

2. Cadarnhau cywirdeb cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 3ydd Awst 2021.

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 3^{ydd} Awst 2021 gan y Cadeirydd.

3. Cais DM/2019/00799 – Darparu cyfleuster addysgol i blant cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol, a hynny er mwyn hysbysu plant ifanc am yr amgylchedd naturiol drwy gynnig gofod diogel, naturiol iddynt ar gyfer teithiau cerdded a gweithgareddau o dan oruchwyliaeth. At hyn, mae'r cynnig yn cynnwys darparu dau pod coed i'w gosod ar gyfer qwyliau fel bod gwesteion yn medru cysgu yno, ac adeiladu toiled cemegol a lloches rhag y glaw. Rhif Cae. 5735 a 4455, Whitecastle, NP7 8UD.

Gwnaethom ystyried adroddiad y cais a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn ddarostyngedig i'r 11 amod a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Wrth nodi manylder yr adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd, nodwyd y bydd plant yn cael eu gollwng yn y cyfleuster addysgol cyn-ysgol am gyfnodau o dair i bedair awr y dydd gydag uchafswm o 12 o blant yn bresennol ar unrhyw adeg benodol.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Pwyllgor Cynllunio Dydd Mawrth, 7fed Medi, 2021, 2.00 pm

- O ran dim ond un cyfleuster tŷ bach oedd, barnwyd bod un cyfleuster a rennir yn briodol i wasanaethu'r cyfleuster addysgol cyn-ysgol a'r llety gwyliau. Fodd bynnag, oherwydd y niferoedd cymedrol o blant a phobl ar eu gwyliau ac y byddai'r plant yn bresennol am gyfnodau penodol yn unig o'r dydd, roedd swyddogion Cynllunio wedi ystyried y byddai'r trefniant hwn yn dderbyniol.
- Mae'r cais yn ôl-weithredol. Ni chyflwynwyd unrhyw gamau gorfodi gan fod y cais cyfredol yn ganlyniad cam ymchwilio gorfodaeth yr achos gorfodi.
- Byddai plant cyn-ysgol yn cael eu monitro'n agos gan staff cymwys wrth ddefnyddio'r holl gyfleusterau ar y safle.
- Nodwyd y gellid ychwanegu amod bod unrhyw elfen adeiledig ar y safle sy'n rhoi'r gorau i'w defnydd cymeradwy yn cael ei symud o'r safle o fewn amserlen benodol.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir R. Edwards ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir M. Powell y dylid cymeradwyo cais DM/2019/00799 yn ddarostyngedig i'r 11 amod a amlinellir yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i amod ychwanegol:

- Yna bod unrhyw elfen adeiledig ar y safle sy'n rhoi'r gorau i'w defnydd cymeradwy yn cael ei symud o'r safle o fewn amserlen benodol.

Ar ôl pleidleisio, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid cymeradwyo	-	13
Yn erbyn cymeradwyo	-	0
Ymataliadau	-	0

Cariwyd y cynnig.

Gwnaethom benderfynu bod cais DM/2019/00799 yn cael ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i'r 11 amod a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i amod ychwanegol, fel a ganlyn:

Bod unrhyw elfen adeiledig ar y safle sy'n rhoi'r gorau i'w defnydd cymeradwy yn cael ei symud o'r safle o fewn amserlen benodol.

4. Cais DM/2020/00636 - Adeilad cadw defaid / at ddibenion amaethyddol cyffredinol. Fferm Henrhiw, Monkwood, Brynbuga.

Gwnaethom ystyried adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn ddarostyngedig i'r wyth amod a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Mynychodd yr Aelod Lleol dros Lanbadog y cyfarfod trwy wahoddiad y Cadeirydd ac amlinellodd y pwyntiau a ganlyn:

- Mynegwyd pryder y gallai'r tir rhwng Fferm Henrhiw a'r Ysguboriau fod wedi gwahanu.
- Roedd y ddwy sied y cytunwyd arnynt yn benderfyniadau a ddirprwywyd gan swyddogion beth amser yn ôl.
- Mynegwyd pryder y byddai uchder yr adeiladau arfaethedig yn ormodol ar gyfer lleoliad gwledig a gofynnwyd a oedd angen adeilad o'r fath ar gyfer ffermio defaid.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Pwyllgor Cynllunio Dydd Mawrth, 7fed Medi, 2021, 2.00 pm

- Mae angen ail-werthuso'r safle cyfan.
- Mae'r cais am y garafán breswyl ar y safle i'w lleoli filltir i ffwrdd ac mae ar wahân i Fferm Henrhiw.
- Ystyriwyd nad oedd y byndiau ar y safle wedi'u cytuno.
- Mae rhan o safle'r cais wedi'i lleoli ar safle llawr caled anawdurdodedig. Ystyriwyd na ddylid cymeradwyo'r cais felly.
- Gofynnodd yr Aelod lleol i'r Pwyllgor Cynllunio ohirio ystyried y cais i gynnal adolygiad llawn o'r cynnig a chynnal archwiliad safle.

Ar ôl ystyried adroddiad y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd gan yr Aelod lleol, nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Mae'r adeilad presennol yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol a storio offer.
- Mae angen yr adeilad newydd arfaethedig gan nad yw'r adeiladau presennol yn addas at y diben ar gyfer ehangu'r ddiadell ddefaid. Mae angen i'r adeilad arfaethedig fod yn uchder penodol i ganiatáu awyru a byddai'n cynorthwyo i ehangu'r fenter hon.
- Mae'r fenter yn uned ar wahân i'r brif fferm.
- Roedd rhai Aelodau o'r farn y byddai archwiliad safle yn fuddiol cyn penderfynu ar y cais.
- Bydd cymeradwyo'r cais yn awdurdodi'r elfen o lawr caled a amlinellir yn yr adroddiad.
- Dim ond am gyfnod cyfyngedig o amser y mae defaid y tu mewn. Mae poly-twnneli yn opsiwn arall i'w ddefnyddio adeg ŵyna.

Crynhodd yr Aelod lleol trwy fynegi ei chefnogaeth o poly-twnnel ar y safle yn lle'r adeilad amaethyddol ychwanegol arfaethedig.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir P. Murphy ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir D. Evans y dylid cymeradwyo cais DM/2020/00636 yn ddarostyngedig i'r wyth amod a amlinellir yn yr adroddiad.

Cynigiwyd hefyd gan y Cynghorydd Sir A. Webb ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir S. Woodhouse ein bod yn bwriadu gohirio ystyried cais DM/2020/00636 i ganiatáu i'r Pwyllgor Cynllunio gynnal archwiliad safle cyn ailgyflwyno'r cais i Bwyllgor Cynllunio yn y dyfodol i'w benderfynu.

Yn gyntaf, ystyriodd y Pwyllgor Cynllunio'r cynnig i gymeradwyo'r cais, fel a ganlyn:

O blaid cymeradwyo	-	7
Yn erbyn cymeradwyo	-	7
Ymataliadau	-	0

Roedd y bleidlais yn gyfartal. Felly, arferodd y Cadeirydd ei phleidlais fwrw a phleidleisiodd yn erbyn cymeradwyo.

Ni chariwyd y cynnig.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Pwyllgor Cynllunio Dydd Mawrth, 7fed Medi, 2021, 2.00 pm

Ystyriodd y Pwyllgor Cynllunio'r cynnig i ohirio'r cais i gynnal archwiliad safle cyn ailgyflwyno'r cais i Bwyllgor Cynllunio yn y dyfodol i'w benderfynu.

O blaid gohirio	-	10
Yn erbyn gohirio	-	3
Ymataliadau	-	0

Cariwyd y cynnig.

Penderfynom ein bod yn bwriadu gohirio ystyried cais DM/2020/00636 i ganiatáu i'r Pwyllgor Cynllunio gynnal archwiliad safle cyn ailgyflwyno'r cais i Bwyllgor Cynllunio yn y dyfodol i'w benderfynu.

5. Cais DM/2021/00724 – Cynnig i adeiladu annedd sengl newydd i'r ochr o Rif. 2 Ifton Road. Ty Newydd, 2 Heol Ifton, Rogiet, NP26 3SS.

Gwnaethom ystyried adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn ddibynnol ar Gytundeb Adran 106.

Wrth nodi manylion y cais, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Ystyriwyd bod y safle'n rhy fach i gynnwys yr annedd newydd arfaethedig a byddai'n arwain at orddatblygu'r safle.
- Mae'r ffordd yn rhy gul ac mae tagfeydd arni eisoes. Byddai eiddo ychwanegol ar y safle gyda cherbydau ychwanegol yn parcio yno yn gwaethygu'r mater tagfeydd ymhellach.
- Gellid lleihau gwerth yr eiddo cynnal pe bai'r cais hwn yn cael ei gymeradwyo. Mae llai nag un metr o bellter rhwng yr eiddo cynnal a'r annedd newydd arfaethedig.
- Mynegwyd pryder ynghylch amwynder y strwythur unllawr o ran y ffenestri. Ystyriwyd y byddai effaith negyddol o ran y rhagolygon o'r ffenestri hynny.
- Hysbysodd y Rheolwr Ardal Rheoli Datblygu'r Pwyllgor fod materion gormesol ac addasrwydd y llain ar gyfer annedd, maint a graddfa yn faterion goddrychol. Nid oes set benodol o fesuriadau / meintiau plot wedi'u nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Sir P. Murphy ac eiliwyd gan y Cyngorydd Sir G. Howard y dylem wrthod cais DM/2021/00724 ar y sail y byddai'r annedd arfaethedig yn arwain at orddatblygu'r llain ac y byddai'n niweidiol i amwynder eiddo cyfagos.

Ar ôl pleidleisio, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid gwrthod	-	13
Yn erbyn gwrthod	-	0
Ymataliadau	-	0

Cariwyd y cynnig.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Pwyllgor Cynllunio Dydd Mawrth, 7fed Medi, 2021, 2.00 pm

Gwnaethom benderfynu ein bod yn bwriadu gwrthod cais DM/2021/00724 ar y sail y byddai'r annedd arfaethedig yn arwain at orddatblygu'r llain ac y byddai'n niweidiol i amwynder eiddo cyfagos.

6. ER GWYBODAETH – Yr Arolygiaeth Gynllunio – Penderfyniadau Sydd Wedi Eu Derbyn Am Apeliadau:

6.1. Fferm Bushes, Earlswood.

Cawsom adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a oedd yn ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn Fferm Llwyni, Coed-yr-iarll ar 29^{ain} Mehefin 2021.

Gwnaethom nodi bod yr apêl wedi'i gwrthod.